

## Cylchlythyr 03 Mis Hydref 2014 Ysgol Gynradd Llanrug Oct Newsletter

### Gwybodaeth i Rieni / Information for parents

1	<p><b>Annwyl Rieni</b> Rydym yn bryderus fod nifer o rieni heb gysylltu gyda'r ysgol i gofnodi <b>neu</b> diweddarau <b>rhifau ffon symudol / rhifau ffôn.</b> (<i>gweler y neges isod Cylchlythyr 02 Medi Ysgol Llanrug</i>) Er mwyn derbyn negesuon testun mae'n bwysig fod y rhifau ffonau symudol pawb yn gyfredol, a bod rhieni yn uwchraddio unrhyw wybodaeth gyfredol gyda Margaret.</p>	<p>Dear Parents I would like to remind parents to <b>update their telephone and mobile numbers with the office.</b> It is very important that all parents receive our text messages from school. ( see below) Please ensure that you update any new numbers, change of address etc with the office, This can be sent directly by email or you can contact Margaret in the office.</p>
2	<p><b>Rhifau ffôn symudol ac ebyst.</b> Mae'r ffôn symudol wedi datblygu i fod yn gyswllt <b>allweddol</b> rhwng ysgol a rhiant. Mae'r mwyafrif o <b>negesuon pwysig</b> yr <b>ysgol</b> bellach yn cael ei ddanfôn drwy neges destun i bob teulu. Os nad ydych yn derbyn y negesuon rydym yn ddanfôn o'r swyddfa drwy 'schoolcomms' mae'n bwysig eich bod yn <b>cysylltu ar frys</b> gyda Margaret yn y swyddfa i gywiro'r sefyllfa. Mae modd i chi hefyd dderbyn pob un o'r cylchlythyrau yma drwy ebost uniongyrchol.</p>	<p><b>Mobile numbers and email contacts</b> The mobile is now one of the most important method of transferring information in our society, and the school is no exception, because we now transfer more information by text and app than through any other method. The schoolcomms system allows us to transfer information quickly to mobiles from our office computer, and parents can receive the texts directly or by app. <b>If you are not receiving texts into your mobiles during the past weeks, please contact Margaret immediately.</b></p>
3	<p><b>Rhifau Pwysig Ysgol Gynradd Llanrug</b> Swyddfa 674905 <a href="mailto:MargaretWilliams2@gwynedd.gov.uk">MargaretWilliams2@gwynedd.gov.uk</a> Mobile y Pennaeth 07584 613560 Mobile y Dirprwy 07584 613561 <a href="mailto:RobinWilliams@gwynedd.gov.uk">RobinWilliams@gwynedd.gov.uk</a></p>	<p><b>Important contact Numbers for the school</b> Office 674905 <a href="mailto:MargaretWilliams2@gwynedd.gov.uk">MargaretWilliams2@gwynedd.gov.uk</a> Principal / Headmaster 07584 613560 Deputy 07584 613561 <a href="mailto:RobinWilliams@gwynedd.gov.uk">RobinWilliams@gwynedd.gov.uk</a></p>
4	<p><b>Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2015</b> Cynhelir profion statudol <b>2015</b> rhwng: <b>6 Mai a dydd Mawrth 12</b> Mai ar gyfer ysgolion cynradd. Cynhelir profion statudol <b>2016</b> rhwng: <b>4 Mai a 10 Mai</b> ar gyfer ysgolion cynradd. Oes modd i rieni sicrhau <b>nad ydynt</b> yn gwneud unrhyw gais i'r ysgol am drefniadau i dynnu plant allan am wyliau yn ystod y dyddiadau uchod.</p>	<p><b>National Numeracy and Literacy Tests 2015</b> The <b>2015</b> statutory tests will take place between: 6 May and Tuesday 12 May for Primary Schools The <b>2016</b> statutory tests will take place between: 4 May and 10 May for Primary Schools. Please <b>do not apply</b> to the school for a holiday form during the above dates, as it will be refused due to government guidelines.</p>
5	<p><b>Cynllun iPad Rhieni 2014</b> Bellach mae pob teulu wedi cael cynnig mynediad i'r cynllun iPad, ac mae llythyrau wedi cael ei dosbarthu yn amlinellu'r cynnig. Os ydych yn dymuno tanysgrifio oes modd i chi ddod ar ffurflenni yn ol i'r swyddfa erbyn Dydd Gwener Hydref 3ydd os gwelwch yn dda. ( copiau ar gael swyddfa) Cynhelir cyfarfod arbennig i rieni nos <b>Iau Hydref 23</b> gyda'r cwmni er mwyn cwblhau'r ceisiadau. Mae'r cwmni wedi sicrhau y bydd popeth wedi brosesu ar iPad's wedi cyrraedd erbyn y Nadolig.</p>	<p><b>The iPad 1 to 1 scheme for parents.</b> The information about the iPad Parents Scheme has gone out to all parents. Registration Forms have been distributed and are available online/office. If you wish to take part in the scheme could you please send these back to the office by Friday 3<sup>rd</sup> Oct. We have arranged a special iPad evening with the company to explain how this National 1 to 1 iPad scheme works. It will be an opportunity for everyone to ask questions and to have an overview of how we can use them for home and school projects work. The company has confirmed that they will be delivered before Christmas.</p>
6	<p><b>Espresso a Purple Mash</b> Mae'r athrawon bellach wedi dosbarthu taflenni yn nodi manylion i fynd ar <b>Espresso a Purple Mash.</b> Rydym wedi sicrhau mynediad i bob disgybl yn yr ysgol o gartref. Gyda'r fersiwn <b>Purple Mash</b> mae modd i ddisgyblion ddefnyddio'r un meddalwedd yn y cartref ac yn yr ysgol i greu storïau, lluniau, posteri, ffilmiau ac animeiddio, a'i storio yn ei ffolderi personol. Mae <b>Espresso</b> yn safle addysg arbennig i ddisgyblion. <b>Safle cwbl ddiogel</b> i wneud ymchwiliadau ar gyfer gwaith cartref.. Mae'r cynnwys yn ardderchog ac mae llyfrgell <b>ddarllen ddigidol</b> am ddim ! <b>Saesneg</b> fel ail iaith yw ein ffocws 'llythrennedd' eleni'. <b>Rydym yn ddiolchgar iawn i'r GRhA / PTA am ariannu'r ddau gynllun yma er mwyn i bob disgybl gael mynediad am ddim.</b>  <b><u>Dyma grynodedb or llythyr rhag of fod rhieni wedi methu allan</u></b></p>	<p><b>Espresso and Purple Mash</b> The class teachers have now <b>distributed letters</b> and small cards showing the log in details for two <b>online resources</b> for pupils to access at home. The PTA have financed a two year deal which allows pupils to access all the software they use at school at home on their PC's, tablets and iPad's This subscription is free for all the pupils at the school. The focus for our literacy framework this year will be 'english'. For over 90%+ of our pupils english is their second language We have found these resources on Purple Mash and Espresso ideal for developing <b>english</b> across the curriculum. Espresso is now the number one choice across Europe, you will see that there are many modules about other languages and cultures within the units. * Espresso and Purple Mash work on PC's tablets, iPad and android all you need is a browser or app.  <b>Here is a <u>reminder</u> of the access code in case parents have not received the letter.</b></p>

<p><b>Cyswllt 'Espresso' i bob teulu - am ddim!</b> Rydym wedi sicrhau mynediad <b>llawn</b> i bob teulu i rwydwaith amlygrwng Espresso. Mae Espresso yn wefan addysg sy'n arbenigo ar blant Meith – Bl 6. Rydym yn defnyddio llawer iawn o'r adnoddau yma i ddatblygu'r Saesneg fel ail iaith . Fe fydd yn <b>wefan ddiogel</b> i ddisgyblion chwilota am adnoddau i gyflawni tasgau gwaith cartref. <a href="https://online.espresso.co.uk/espresso/login/Authn/UserPassword">https://online.espresso.co.uk/espresso/login/Authn/UserPassword</a> defnyddiwr <b>student7924</b> cyfrinair <b>llanrug</b>. Gwefan arall gyda llwyth o gemau mathemateg yw interactive resources.</p>	<p><b>Link to Espresso and interactive resources</b> The school has provided access for every family to access the online educational resources and games in Espresso and Interactive Resources. Each child will get a printout of the logins. We use these resources all the time in school and they form a basis for lots of work in English. <a href="https://online.espresso.co.uk/espresso/login/Authn/UserPassword">https://online.espresso.co.uk/espresso/login/Authn/UserPassword</a> User <b>student7924</b> password <b>llanrug</b>. Can you please help your child to log in and save the web page as one of the Favourites – or as a link on the desktop. Thank you</p>
<p><b>Purple Mash</b> Rydym ni hefyd wedi creu mynediad personol i bob plentyn i Purple Mash. <a href="http://www.purplemash.co.uk/sch/llanrug">http://www.purplemash.co.uk/sch/llanrug</a> Fe fyddwch yn derbyn gwybodaeth <b>personol</b> i ffolderi eich plentyn. Bydd modd i ddisgybl weithio ar y meddalwedd o gartref neu o'r ysgol ar PC, ipad, Tablet, android, o'r ipod touch. <b>Fe hoffwn pe byddai rhieni yn rhoddi ychydig o amser wrth gefn i grwydro'r adnoddau yma gyda'r plant.</b></p>	<p><b>Purple Mash</b> The pupils have now got online access to every piece of software that they use in school. They can save their work into the cloud and produce their own digital portfolio. They can access their work from 'Home' and 'School'. <a href="http://www.purplemash.co.uk/sch/llanrug">http://www.purplemash.co.uk/sch/llanrug</a> They will bring home an id card either which gives you their user and password. These are fantastic resources for all subjects. <b>Please take time to take a tour with your child and have a go !!</b></p>
<p><b>Ymchwil Prifysgol Bangor i'r defnydd o'r Gymraeg yn y Gymuned ! Siarter Iaith Cyngor Gwynedd ( Cais gan y Brifysgol )</b> Mae myfyrwyr Prifysgol Cymru yn gwneud ymchwil i weld sut mae ysgolion Dyffryn Peris yn cynnal y 'Gymraeg' yn yr ysgolion, ac fel iaith fyw o fewn y gymuned. Mae nhw wedi gwneud cais yn gofyn i rieni disgyblion Ysgol Llanrug i gynorthwyo gyda'r ymchwil. Gan fod Ysgol Llanrug yn un o'r ychydig ysgolion cymraeg naturiol sydd ar ôl bellach, ( yn ôl y cyfrifiad diwethaf 2011.) Mae'r Brifysgol yn awyddus i weld pam fod cymaint o gefnogaeth i'r '<b>Siarter iaith</b>' yn lleol, a bod cymaint o blant ac oedolion sy'n symud i'r ardal i fyw, mor awyddus i ddyysgu a chynnal y gymraeg fel iaith fyw i'r genhedlaeth nesaf. Mae pecyn ymchwil parod wedi cael ei baratoi i rieni. Mae amlen gyda stamp yn barod i ddanfon yr holiadur yn ôl. Oes modd i chi fel rhieni i dreulio ychydig o amser i lenwi'r holiadur. Fe allai'r dystiolaeth fod yn ddefnyddiol i ddatblygu strategaeth Cymru gyfan i gynyddu'r siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd dydd i ddydd o'r Gymraeg erbyn y cyfrifiad nesaf. Mae'r disgyblion wedi cwblhau 'holiadur disgyblion 'ar lein yn y ysgol fel rhan o waith y <b>siarter iaith</b> i Gyngor Gwynedd i gael mwy o Gymraeg yn yr ysgolion trefol.</p>	<p><b>Bangor University Research into - 'Welsh as a Community Language' Welsh Charter ( a request from Bangor University)</b> Dear Parents The University in Bangor are conducting a major survey into Welsh language as a 'community language'. They have asked us to distribute a survey to parents as part of the Gwynedd 'Welsh Charter' which aims, to increase and develop the Welsh language within the community. Students in Bangor have been conducting research into the statistics for the Welsh language, from the last Census figures in 2011. 'Dyffyn Peris' was one of the very few areas where the <b>Welsh language is still strong</b>, and where there are large numbers of <b>new 'welsh speakers'</b> who have <b>learnt the language</b>. As a school which has 93% of it's pupils who currently come from Welsh or bilingual homes, they would like you as parents to fill out a small survey. Pupils in Gwynedd have already filled an online survey at school last year, and are currently in the process of doing a second one before half term. They are really interested in how many English families who have moved into the area, and have learnt the language. Families who have truly immersed themselves into the community, and the Welsh culture in the area.</p>
<p><b>Dyddiadur</b></p>	<p><b>Diary</b></p>
<p><b>Nosweithiau Agored Hydref 15 / Hydref 16</b></p>	<p><b>Open Evenings October 15<sup>th</sup> and 16<sup>th</sup></b></p>
<p><b>Twrnament Rygbi Rhanbarth Arfon Bl 5 a 6 ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon prynhawn Dydd Mercher Hydref 22</b></p>	<p><b>Regional Rugby Tournament at caernarfon Rugby Club Yr 5 and 6</b></p>
<p><b>Disgo Calan Gaeaf : Hydref 23 Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug</b></p>	<p><b>Halloween Disco October 23 School Hall</b></p>
<p><b>Hydref 23 at 6 p.m. Cyfarfod Rhieni : Project ipad 2014</b> John Holder Ymgynghorydd Addysg TgaCh AT Computers Cyflwyniad i'r cynllun ipad 6 – 7 p.m. ' Llythrennedd Ddigidol' (Cyfle i rieni fynd i'r cyfarfod a plant i'r disco Calan Gaeaf.)</p>	<p><b>October 23 6p.m. Parents Evening</b> John Holder Education Advisor for ATC Computer 1 – 1 ipad project. Introduction to the 1 – 1 ipad scheme for families. 'Digital Literacy' ( The children can go to the disco and parents can go to the meeting)</p>
<p><b>Hanner Tymor Hydref 27 - 31</b></p>	<p><b>Half Term October 27<sup>th</sup> – 31<sup>st</sup></b></p>
<p><b>Ffair Grefftau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon</b> <b>Nos Iau Tachwedd 6ed 2014 rhwng 6 o'r gloch ac 8 o'r gloch.</b></p>	<p><b>PTA Christmas Craft Fair Thursday November 6<sup>th</sup> 2014</b> <b>Between 6 and 8 p.m.</b></p>
<p><b>Clwb Ffilmiau : Nos Iau Tachwedd 6ed rhwng 6 ac 8 o'r gloch.</b> (Cyfle i rieni fynd i'r Ffair Grefftau a plant fynd i'r clwb ffilm ! )</p>	<p><b>Film Club : Thursday 6<sup>th</sup> of November between 6 and 8</b> Children can go to the film, parents will be free to visit the Craft Fair</p>
<p><b>Taith Siopa Nadolig : Dydd Sadwrn Tachwedd 15 i Lerpwl</b></p>	<p><b>Liverpool PTA Christmas Shopping Trip : Saturday November 15<sup>th</sup></b></p>
<p><b>Ffair Nadolig Plant : Nos Iau Tachwedd 27</b></p>	<p><b>School Christmas Fair : Thursday 27<sup>th</sup> of November.</b></p>
<p><b>Cyngerdd Nadolig Cyfnod Sylfaen Ysgol Llanrug</b> <b>Prynawn Dydd Llun Rhagfyr 8ed am 1.30p.m. a</b> <b>Nos Fawrth Rhagfyr 8ed am 5.30p.m</b></p>	<p><b>Foundation Stage Christmas Concert</b> <b>Monday Afternoon Dec 8<sup>th</sup></b> Tuesday evening at 5.30 p.m.</p>
<p><b>Cyngerdd Adran Iau Ysgol Gynradd Llanrug</b> Nos Iau Rhagfyr 11 yn Ysgol Uwchradd Brynrefail am 7 o'r gloch.</p>	<p><b>KS 2 Christmas Concerts at Brynrefail.</b> Thursday Evening December 11<sup>th</sup> at 7 p.m.</p>
<p><b>Cyngerdd Henoed Bor Llun Rhagfyr 15ed</b></p>	<p><b>Special Concert : Pensioners and Friends of the school on Mondau 15<sup>th</sup></b></p>